Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad 2024 i Gymru

## Darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru yn 2023/24

**Cyflwyniad**

Yn 2024, cynhaliwyd y 14eg arolwg blynyddol Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Bob yn ail, mae'r arolwg yn un safonol ac arolwg sydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau craidd a thematig. Roedd arolwg 2024 yn fersiwn gyda chymysgedd o gwestiynau craidd a thematig, ac yn ymdrin â'r flwyddyn academaidd 2023/24.[1] Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar ymatebion gan 14 gwasanaeth yng Nghymru, gan gynrychioli 22 ardal awdurdod lleol a gyda chyfradd ymateb o 100%.

**Cynnwys**


Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol ........ 3
RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru ........ 4
RHAN 2: Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar a staff arbenigol arall ........ 7
RHAN 3: Cymorth a ddarperir ........ 12
RHAN 4: Cymorth yn dilyn adnabyddiaeth o fyddardod ........ 14
RHAN 5: Cwestiynau thematig: Adnabyddiaeth gynnar a llwybrau ymyrraeth gynnar ........ 16
RHAN 6: Cefndir a methodoleg ........ 19
Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol ........ 20


[1] Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn www.ndcs.org.uk/cride neu ar wefan BATOD yn https://www.batod.org.uk/information/cride-reports/.

**Dehongli’r canlyniadau**

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa o 31 Ionawr 2024 ymlaen.

Cydnabuwyd yn yr arolwg nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bu angen trwy'r arolwg. Nodir gan yr adroddiad hwn materion penodol a ddaeth i'r amlwg mewn rhai ardaloedd.

Fel y gwelwn yn ddiweddarach, mae’n amlwg bod rhai gwasanaethau dal i brofi anawsterau wrth gael data am blant byddar yn eu hardal ac mae yna anghysondebau o hyd yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb drwy gydol yr arolwg. Weithiau gall y gyfradd ymateb i gwestiynau unigol amrywio a gall anomaleddau ymddangos weithiau. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i unrhyw anghysondebau sy’n ymddangos i fod yn arbennig o ryfedd. Ond, nid yw gwasanaethau bob tro yn ymateb i ymholiadau o’r fath. **Felly, dylid defnyddio’r canlyniadau â gofal o hyd.** Dylid defnyddio gofal hefyd oherwydd y gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a chamgymeriadau posib yn narpariaeth data rhwng arolygon.

Noder bod pob canran yn yr arolwg hwn wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

## Crynodeb o’r canfyddiadau allweddol

*Plant byddar yng Nghymru*

- Roedd 2,227 o blant byddar. Mae’r ffigwr hon o 2,227 yn ostyngiad cofnodedig o 33 (1%) o 2,260 yn 2023.

*Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill*

- Roedd o leiaf 64.8 swydd Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar (AYB) CALl, a 2 CALl (3%) yn wag.
- O’r 62.8 CALl a oedd yn gweithio fel AYB, roedd 97% yn meddu ar y cymhwyster gorfodol, 2% mewn hyfforddiant a 2% yn athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol a heb fod mewn hyfforddiant.
- Mae nifer yr AYB cymwysedig mewn cyflogaeth sy’n gweithio mewn rôl beripatetig neu, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol wedi codi 2% ers 2023 a gostwng 15% ers inni ddechrau’r arolwg yn 2011.
- Cyflogwyd 29.34 swydd staff cymorth arbenigol CALl (heblaw AYB) yn uniongyrchol gan wasanaethau, a 0.64 CALl (2%) ohonynt yn swyddi gwag.

*Darpariaethau adnoddau*

- Cofnodwyd bod 19 darpariaeth adnoddau, sef yr un nifer a adroddwyd yn 2022 a 2023. Gan edrych ar ymlediad darpariaethau adnoddau ledled Cymru, ar gyfartaledd, mae un ddarpariaeth adnoddau i bob 117 plentyn byddar.

*Cymorth yn dilyn adnabyddiaeth o fyddardod*

- Dywedodd gwasanaethau eu bod wedi derbyn 564 o atgyfeiriadau yn ystod blwyddyn galendr 2023, cynnydd o 449 yn 2022
- Daeth 7% o atgyfeiriadau i wasanaethau o raglen sgrinio clyw babanod yn 2023. O’r rhain, cafodd 51% eu cysylltu gan AYB o fewn dau ddiwrnod gwaith.
- Daeth 15% o atgyfeiriadau i wasanaethau o’r tu allan i raglen sgrinio clyw babanod a chyn i blentyn ddechrau addysg statudol. O’r rhain, cafodd 55% eu cysylltu gan AYB o fewn pum diwrnod gwaith.
- Daeth 78% o atgyfeiriadau i wasanaethau o’r tu allan i raglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl i blentyn ddechrau addysg statudol. O’r rhain, cafodd 42% eu cysylltu gan AYB o fewn pum diwrnod gwaith.
- Ni waeth sut y gwnaethpwyd yr atgyfeiriad, cynigwyd ymweliad i 36% o deuluoedd (naill ai wyneb yn wyneb neu’n rhithiol) o fewn deng niwrnod o’r atgyfeiriad.

*Cwestiynau thematig: Adnabyddiaeth gynnar a llwybrau ymyrraeth gynnar*

- Adroddodd 11 gwasanaeth (79%) fod pob plentyn a oedd wedi’u hadnabod i fod yn fyddar wedi cael eu hatgyfeirio i’r gwasanaeth.
- Adroddodd pob un o’r 14 gwasanaeth (100%) fod pob atgyfeiriad i blant a oedd wedi’u hadnabod i fod yn fyddar wedi cael eu derbyn.
- Adroddodd wyth gwasanaeth (57%) fod rhaglen sgrinio'r clyw i blant ifanc yn yr ysgol ar draws yr ardal gyfan lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu.

# RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru

### Faint o blant byddar sydd?[2]

Yn seiliedig ar ymatebion gan bob un o'r 14 gwasanaeth, roedd 2,227 o blant byddar. Mae'r ffigur hwn o 2,227 yn ostyngiad a gofnodwyd o 33 (1%) o 2,260 yn 2023.

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 34 o blant byddar yn byw o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf fod 476 o blant byddar (roedd hwn yn wasanaeth sy'n gweithio dros bum ardal awdurdod lleol). Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n byw ym mhob ardal gwasanaeth oedd 159.

Mae'r tabl canlynol yn cymharu cyfanswm y plant byddar sy'n byw yng Nghymru gyda ffigyrau o flynyddoedd blaenorol. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau gydag adroddiadau cynharach oherwydd ansawdd yr ymatebion a chyfraddau ymateb rhwng yr arolygon.

*Tabl 1: Nifer y plant byddar a gofnodwyd, dros flynyddoedd olynol*

| | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** |
|---|---|
| CRIDE 2024 | 2,227 |
| CRIDE 2023 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,260 |
| CRIDE 2022 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,329 |
| CRIDE 2021 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,324 |
| CRIDE 2020* | 1,384 |
| CRIDE 2019 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,486 |
| CRIDE 2018 | 2,625 |
| CRIDE 2017 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,642 |
| CRIDE 2016 | 2,374 |
| CRIDE 2015 (cyfanswm wedi'i addasu) | 3,288 |
| CRIDE 2014 | 2,880 |
| CRIDE 2013 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,904 |
| CRIDE 2012 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,743 |
| CRIDE 2011 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,755 |

** Yn 2020, roedd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn.*

[2] Gofynnwyd i wasanaethau i gynnwys plant a phobl ifanc byddar gyda byddardod parhaol o dan 20 oed , gan gynnwys cymaint â phosib: pob plentyn sydd â byddardod dargludol parhaol neu synwyrnerfol unochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, gan ddefnyddio disgrifyddion BSA/BATOD; pob plentyn byddar p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth neu beidio; plant sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'r ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn yr ardal. Noder hefyd ein bod ni'n defnyddio'r term 'byddardod parhaol' i gynnwys y plant hynny sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 12 oed, fel y rheini a anwyd gyda thaflod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dyscinesia blewynnol cychwynnol. O dan fyddardod dargludol dros dro, cynhwysir y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd efallai wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 12 oed. Noder, at ddibenion y cwestiynau hyn, defnyddiwyd y term 'plant' i gynnwys plant a phobl ifanc o dan 20 oed (oni nodwyd yn wahanol yn y cwestiwn).

**Problemau neu fylchau yn y data**

Nododd deg gwasanaeth (71%) fod yna fylchau neu broblemau hysbys yn y data a ddarparasant am nifer y plant a phobl ifanc byddar. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy’n derbyn cymorth gan y gwasanaeth yn unig (64% o’r holl wasanaethau)
- gwasanaethau ddim yn meddu ar ffigurau am blant sydd wedi gadael yr ysgol (43%)
- gwasanaethau ddim yn gallu rhannu ffigurau am blant â byddardod parhaol neu dros dro (7%)
- roedd problemau eraill a gofnodwyd gan wasanaethau yn cynnwys heb gael ffigurau am rai plant heb gymhorthion clyw (h.y. clust ludiog ysgafn iawn).

Adroddodd pedwar gwasanaeth (29%) fod dim bylchau neu broblemau hysbys yn y ffigur a ddarparwyd am blant gyda byddardod parhaol yn byw yn yr ardal.

Mae maint y problemau a bylchau hyn yn ein hatgoffa bod angen defnyddio’r ffigyrau a grëwyd gan arolwg CRIDE â gofal. Mae’r data yn yr adroddiad hwn ond cystal â’r data sy’n cael ei gadw ac a ddarperir inni, gan awdurdodau lleol, ac mae’r adran uchod yn codi cwestiynau am sut gallwn wella’r data a gesglir am blant byddar. Ar yr un pryd, credwn fod y data a gynhyrchir drwy adroddiadau CRIDE yn parhau i fod ymhlith y ffynonellau data gorau sydd ar gael.

Gofynnwyd i wasanaethau sawl plentyn oedd yn gymwys am ginio ysgol am ddim hyd y gwyddant. Darparodd pum gwasanaeth ffigur mewn ymateb i’r cwestiwn hwn, gan gofnodi cyfanswm o 130 o blant a phobl ifanc byddar. Mae hyn yn 34% o gyfanswm nifer y plant byddar a nodwyd yn y pum ardal hyn. Ond, nododd dau allan o’r pum gwasanaeth hefyd fod y data a ddarparwyd ganddynt ddim o reidrwydd yn fanwl gywir. Os ydym yn cynnwys yn unig y data a ddarparwyd gan dri gwasanaeth nad oeddent yn arwyddo efallai bod y data ddim yn gywir, adroddwyd bod 84 o blant yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim, 45% o’r cyfanswm am yr ardaloedd hyn.

**Nifer y plant byddar ar lwythi achosion gwasanaethau**

Defnyddir llwyth achosion i olygu plant sy’n derbyn rhyw fath o gymorth **o leiaf unwaith y flwyddyn**. Mae enghreifftiau o gefnogaeth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol ac athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Gofynnwyd i wasanaethau gynnwys plant a oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth ond nad ydynt yn byw o fewn yr un ardal ddaearyddol â’u gwasanaeth. Roedd gwasanaethau hefyd yn gallu cynnwys plant â byddardod dros dro yn eu hatebion i’r cwestiwn hwn hefyd os oeddent ar lwyth achos y gwasanaeth.

Mae ymatebion gan 12 gwasanaeth yn arwyddo bod o leiaf 3,038 o blant byddar gyda byddardod parhaol neu dros dro ar lwyth achosion.[3] Mae hwn yn ostyngiad cofnodedig o 6% ers 2023 pan adroddodd pob un o’r 14 gwasanaeth fod 3,224 o blant byddar ar eu llwythi achosion.

[3] Ni ddarparodd dau wasanaeth ffigur.

*Tabl 2: Nifer y plant byddar ar lwythi achos a gofnodwyd, dros flynyddoedd olynol*

| Blwyddyn | Nifer y plant ar y llwyth achos | Diffiniad llwyth achos | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 2024 | 3,038 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 12 |
| 2023 | 3,224 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 14[4] |
| 2022 | 3,178 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2021 | 3,430 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2020 | 1,639[5] | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 11 |
| 2019 | 3,265 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 14 |
| 2018 | 4,258 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2017 | 3,968 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2016 | 3,722 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2015 | 3,022 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2014 | 2,345 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2013 | 2,530 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 17[6] |
| 2012 | 2,905 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 21 |
| 2011 | 2,638 | Ni ddarparwyd diffiniad clir | 16 |

Gofynnwyd hefyd i wasanaethau rannu nifer y plant ar eu llwythi achosion a oedd â byddardod dargludol dros dro. Adroddodd 13 gwasanaeth bod 1,220 o blant.[7]

Os oes 2,227 o blant â byddardod parhaol yn byw yng Nghymru a 1,818[8] ar lwythi achosion gwasanaethau gyda byddardod parhaol, mae yna o leiaf 409 o blant byddar (18% o'r cyfanswm) nad ydynt yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn. Nid yw'n dilyn yn awtomatig bod 18% o blant sydd â byddardod parhaol ddim yn derbyn unrhyw gymorth o gwbl; efallai bod nifer fawr ohonynt yn derbyn cefnogaeth llai nag unwaith y flwyddyn gan wasanaeth, neu o rywle arall, er enghraifft, gan ddarpariaethau adnoddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth. Mae'n bosibl hefyd bod hyn yn adlewyrchu'r data anghyflawn a ddarparwyd gan rai gwasanaethau.

[4] Mae'r newid yn nifer y gwasanaethau o 2022 yn adlewyrchu bod un gwasanaethu wedi ymuno â gwasanaeth consortiwm
[5] Yn 2020, roedd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn.
[6] Mae'r newid yn nifer y gwasanaethau yn adlewyrchu bod rhai gwasanaethau wedi ymgyfuno ar ôl 2013.
[7] Roedd y ddau wasanaeth nad oeddent yn darparu ffigurau am nifer y plant gyda byddardod parhaol neu dros dro ar eu llwythi achosion wedi darparu ar wahân ffigurau am nifer y plant byddar gyda byddardod dros dro ar eu llwythi achosion.
[8] Cyfrifir y cyfanswm o 1,818 o blant sydd â byddardod parhaol ar lwythi achosion gwasanaethau drwy dynnu nifer y plant gyda byddardod dros dro ar lwythi achosion gwasanaethau (1,220) o nifer y plant gyda byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achosion gwasanaethau (3,038). Dylid nodi bod y flwyddyn hon, ni ddarparodd dau wasanaeth ffigur lwyth achosion am nifer y plant gyda byddardod parhaol neu dros dro ond yn adrodd ffigur am nifer y plant gyda byddardod dros dro ar y llwyth achosion.

## RHAN 2: Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar a staff arbenigol arall

Gofynnwyd am nifer yr AYB sy’n gweithio mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys y rheini mewn rôl beripatetig, yn gweithio mewn darpariaeth adnoddau[9] a/neu’n gweithio mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Cawsom fod:

- yn gyffredinol, mae yna o leiaf 62.8 athro CALl sy’n gweithio fel AYB yng Nghymru
- llenwir 97% o’r swyddi hyn gan AYB hollol gymwysedig, 2% wedi’u llenwi gan athrawon mewn hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol a 2% wedi’u llenwi gan athrawon heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt mewn hyfforddiant
- ar adeg cwblhau’r arolwg, adroddwyd bod yna 2 swydd wag CALl
- os ychwanegir y swyddi gwag at gyfanswm yr AYB mewn cyflogaeth, byddai hyn yn arwyddo bod o leiaf 64.8 swydd AYB CALl, gyda 3% ohonynt yn wag.

Mae'r tabl dilynol yn darparu dadansoddiad yn ôl math y lleoliad.

[9] Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term ‘darpariaeth adnoddau’ i gynnwys pob ysgol sydd ag uned, canolfan neu ddarpariaeth adnoddau yn benodol ar gyfer plant byddar, ni waeth a yw’r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu’r ysgol.

*Tabl 3: Nifer y swyddi AYB yn gyffredinol*[10]

| | Gweithio'n bennaf fel AYB peripatetig (cyfanswm a chanran) | Gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau (cyfanswm a chanran) | Gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran) | Gweithio'n hyblyg fel AYB peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | Swyddi AYB yn gyffredinol (cyfanswm a chanran) |
|---|---|---|---|---|---|
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol | 33.7 (97%) | 23.7 (96%) | 2 (100%) | 1.4 (100%) | 60.8 (97%) |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 1 (3%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (2%) |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 (0%) | 1 (4%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (2%) |
| Cyfanswm – mewn cyflogaeth | 34.7 (100%) | 24.7 (100%) | 2 (100%) | 1.4 (100%) | 62.8 (100%) |
| Swyddi gwag | 1 (3%) | 1 (4%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 2 (3%) |
| Cyfanswm – swyddi | 35.7 (100%) | 25.7 (100%) | 2 (100%) | 1.4 (100%) | 64.8 (100%) |

Mae’r tabl canlynol yn crynhoi’r uchod gan ddangos nifer yr AYB mewn cyflogaeth yn ôl eu rôl yn unig.

*Tabl 4: Nifer yr AYB mewn cyflogaeth yn gyffredinol yn ôl rôl*

| | Cyfanswm yr AYB mewn swydd | Canran |
|---|---|---|
| Gweithio'n bennaf fel AYB peripatetig | 34.7 | 55% |
| Gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau | 24.7 | 39% |
| Gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | 2 | 3% |
| Gweithio'n hyblyg fel AYB peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | 1.4 | 2% |
| Cyfanswm o’r ffigurau a rhoddwyd | 62.8 | 100% |

[10] Mae canrannau’r AYB gyda'r cymhwyster gorfodol, Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd ac Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant allan o’r cyfanswm sydd mewn swydd. Mae canrannau ar gyfer swyddi gwag allan o bob swydd.

Casglwyd ffigurau i AYB mewn rhaglenni mewnblaniadau yn y cochlear ledled Cymru mewn arolwg ar wahân. Derbyniwyd ymateb gan Raglen Mewnblaniad Cochleaidd De Cymru. Adroddwyd bod o leiaf 1.6 AYB hollol gymwysedig CALl mewn swydd, a dim swyddi gwag.

**Newidiadau i nifer yr AYB**

Mae'r tabl dilynol yn edrych ar newidiadau yn nifer yr AYB cymwysedig mewn cyflogaeth a swyddi dros flynyddoedd olynol.

Fel yr amlinellir yn gynharach, wrth wneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, gall anomaleddau ymddangos weithiau yn yr atebion. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i unrhyw anghysondebau sy'n ymddangos i fod yn arbennig o ryfedd; ond, nid yw gwasanaethau bob tro yn ymateb i ymholiadau o'r fath.

*Tabl 5: Newidiadau yn nifer yr AYB o flwyddyn i flwyddyn* [11]

| | AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth neu o dan hyfforddiant | Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel AYB mewn cyflogaeth | Nifer y swyddi gwag | Nifer y swyddi AYB (gan gynnwys swyddi gwag) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2024 | 60.8 | 61.8 | 62.8 | 2.0 | 64.8 |
| 2023 | 59.7 | 64.3 | 64.3 | 1.6 | 65.9 |
| 2022 | 57.8 | 62.8 | 62.8 | 2.4 | 65.2 |
| 2021 | 54.4 | 58.8 | 60.0 | 2.4 | 62.4 |
| 2019 | 57.0 | 66.0 | 66.0 | 0 | 66.0 |
| 2018 | 56.425 | 61.825 | 61.825 | 1 | 62.825 |
| 2017 | 57.63 | 60.33 | 60.73 | 3.9 | 64.63 |
| 2016 | 65.45 | 69.25 | 69.25 | 1 | 70.25 |
| 2015 | 69.86 | 73.66 | 74.26 | 0.8 | 75.06 |
| 2014 | 67 | 69.2 | 70.2 | 0.6 | 70.8 |
| 2013 | 66.5 | 71.5 | 71.5 | 3 | 74.5 |
| 2012 | 91.75 | 100.55 | 100.55 | 0 | 100.55 |
| 2011 | 71.95 | 73.95 | 75.95 | 0 | 75.95 |

*(Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg)*

[11] Yn 2017, dechreuwyd gofyn am AYB mewn colegau neu ysgolion arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Felly nid yw'n bosib gwneud cymariaethau uniongyrchol gyda ffigurau cyn/ar ôl hyn. Ond, mae'n werth nodi nad yw cynnwys y ffigurau hyn wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer yr AYB.

*Tabl 6: Newid canrannol yn nifer yr AYB*

| | **Newid canrannol dros y 13 mlynedd diwethaf (rhwng 2011 a 2024)** | **Newid canrannol dros y flwyddyn ddiwethaf (rhwng 2023 a 2024)** |
|---|---|---|
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | -15% | 2% |
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth **neu** mewn hyfforddiant | -16% | -4% |
| Nifer yr athrawon sy’n gweithio fel AYB mewn cyflogaeth | -17% | -2% |
| Nifer y swyddi AYB (gan gynnwys swyddi gwag) | -15% | -2% |

Yn nhermau unrhyw newidiadau i AYB mewn swydd mewn rolau penodol:

- mae cyfanswm o 34.7 AYB peripatetig CALl wedi gostwng o 1.1 CALl o 35.8 yn 2023, neu ostyngiad o 3%. Ers 2011, bu gostyngiad o 17% o 42 AYB peripatetig.
- mae’r cyfanswm o 24.7 AYB CALl mewn darpariaethau adnoddau yn gynnydd bach o 24.5 yn 2023. Mae hyn yn gynnydd o 1%. Ers 2011, pan oedd 34 AYB mewn swydd mewn darpariaethau adnoddau, gwelsom ostyngiad o 27%.
- adroddwyd bod 2 AYB CALl gyda'r cymhwyster gorfodol yn gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Mae hyn yr un ffigur ag yr adroddwyd yn 2023.
- adroddwyd bod 1.4 AYB CALl gyda'r cymhwyster gorfodol yn gweithio’n hyblyg rhwng gwahanol rolau/lleoliadau. Mae hyn i lawr o 2 AYB CALl a adroddwyd i fod yn gweithio yn y modd hwn yn 2023.

Cawsom fod 7% o wasanaethau wedi gweld cynnydd yn nifer yr AYB mewn cyflogaeth rhwng 2023 a 2024, 71% o wasanaethau heb weld unrhyw newid a 21% o wasanaethau wedi gweld gostyngiad.

Yn nhermau unrhyw anawsterau i recriwtio AYB neu ddigon o weithwyr llanw dros y 12 mis diwethaf:

- cofnododd un gwasanaeth (7%) anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol
- cofnododd dau (14%) ddim anawsterau

- cofnododd tri gwasanaeth (21%) anawsterau wrth recriwtio athrawon llanw
- cofnododd dau (14%) ddim anawsterau

Gan gyfuno’r ffigyrau, cofnododd tri gwasanaeth (21%) anawsterau wrth recriwtio i naill ai swyddi parhaol neu lanw. Roedd sylwadau gan wasanaethau ynghylch hyn yn cynnwys:

- anhawster wrth drefnu AYB cymwysedig llanw ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch tymor hir
- anhawster wrth drefnu AYB gymwysedig ar gyfer cyfnod mamolaeth
- nid oes unrhyw AYB cymwysedig llanw ar gael.

**Staff arbenigol eraill**

Cawsom fod 28.7 staff cymorth arbenigol CALl, heblaw am AYB, wedi'u cyflogi gan wasanaethau, yn cefnogi plant byddar. Cofnodwyd bod 0.64 swydd wag CALl. Mae hyn yn golygu bod 29.34 swydd staff cymorth arbenigol, gyda 2% ohonynt yn wag.

*Tabl 7: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl rôl*

| | **Nifer yn gweithio yn y rôl hon** | | **Swyddi gwag** | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | |
| Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dosbarth / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb | 19.73 (98%) | 9 | 0.44 (2%) | 1 | 20.17 (100%) |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb | 5.5 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 5.5 (100%) |
| Dehonglwyr BSL/Saesneg wedi'u cofrestru gyda'r NRCPD | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Hyfforddwyr byddar/Modelau rôl byddar/Hyfforddwyr iaith arwyddion ayb | 0.77 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 0.77 (100%) |
| Awdiolegwyr addysgol/Awdiolegwyr mewn addysg nad ydynt hefyd yn meddu ar gymhwyster fel AYB | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Technegwyr, ayb | 1.5 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 1.5 (100%) |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 0.2 (50%) | 1 | 0.2 (50%) | 0 | 0.4 (100%) |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd/Swyddogion cyswllt | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Gweithwyr cymdeithasol/Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Arall | 1 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 (100%) |
| Cyfanswm y ffigurau a roddwyd | 28.7 (98%) | | 0.64 (2%) | | 29.34 (100%) |

Roedd rolau eraill yn cynnwys cynorthwyydd addysgu lefel uwch peripatetig.

Mae nifer y swyddi wedi gostwng o 44.5 CALl yn 2023. Mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad o 14 aelod o staff a gofnodwyd mewn un gwasanaeth.[12] Ni chawsom ymateb i'n ceisiadau i egluro hyn.

[12] Caerdydd.

# RHAN 3: Cymorth a ddarperir

Nododd pob un o'r 14 gwasanaeth (100%) fod y gwasanaeth wedi'i leoli yn yr awdurdod lleol (yn hytrach na wedi'i leoli mewn ysgol neu gorff arall).

**Penaethiaid gwasanaethau**

Gofynnwyd a oedd AYB peripatetig yn y gwasanaeth wedi'u rheoli gan rywun sy'n AYB cymwysedig neu sydd mewn hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol. Nododd chwe gwasanaeth (43%) eu bod nhw yn, ac wyth gwasanaeth (57%) eu bod nhw ddim.

Lle nad oedd gwasanaethau'n cael eu rheoli gan AYB cymwysedig neu AYB mewn hyfforddiant, gofynnwyd am rôl y person a oedd yn rheoli'r gwasanaeth. Roedd atebion yn cynnwys:

- Rheolwr Athrawon Arbenigol a Chanolfan Adnoddau ADY
- Rheolwr Cymorth am Ddysgu
- Meistr Addysg Arbennig
- Athro Plant â Nam ar y Golwg Cymwysedig/Arbenigol
- Uwch Athro Synhwyraidd – athro corfforol meddygol.

**Nifer y darpariaethau adnoddau**

Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol (prif ffrwd neu arbennig) sydd ag uned, canolfan neu ddarpariaeth adnoddau yn benodol ar gyfer plant byddar, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol.

*Tabl 8: Nifer y darpariaethau adnoddau*

| | Wedi'i reoli gan yr awdurdod lleol | Wedi'i reoli gan yr ysgol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau adnoddau i blant oed cynradd | 3 | 6 | 9 |
| Darpariaethau adnoddau i blant oed uwchradd | 4 | 6 | 10 |
| Cyfanswm | 7 | 12 | 19 |

Cawsom fod:

- gan naw gwasanaeth (64%) o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oed cynradd yn eu hardal
- gan naw gwasanaeth (64%) o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oed uwchradd yn eu hardal

Rheolwyd 17 allan o 19 darpariaeth adnoddau (89%) gan AYB cymwysedig.

Mae'r cyfanswm o 19 darpariaeth adnoddau ledled Cymru wedi aros yr un peth ag yn 2022 a 2023.

*Tabl 9: Nifer y darpariaethau adnoddau dros amser*[13]

| Blwyddyn | Nifer y darpariaethau adnoddau |
|---|---|
| 2024 | 19 |
| 2023 | 19 |
| 2022 | 19 |
| 2021 | 20 |
| 2019 | 24 |
| 2018 | 25 |
| 2017 | 25 |
| 2016 | 24 |

Hefyd edrychwyd ar nifer y darpariaethau adnoddau yn erbyn nifer y plant byddar. Y bwriad oedd dangos lledaeniad darpariaethau adnoddau ar draws Cymru, mewn perthynas â phoblogaeth gyffredinol plant byddar. Cawsom fod, ar gyfartaledd, un ddarpariaeth adnoddau i bob 117 plentyn byddar. Mae hyn wedi gostwng ers 2023 pan oedd un ddarpariaeth adnoddau i bob 119 plentyn byddar.

**Nid** yw hyn yn fesur o nifer y lleoedd sydd ar gael yn, neu'r plant byddar unigol sydd wedi'u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi'u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

Mae'r atodiad yn cynnwys ffigurau am ledaeniad darpariaethau adnoddau yn erbyn poblogaeth leol plant byddar ym mhob awdurdod lleol.

[13] Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg

## RHAN 4: Cymorth yn dilyn adnabyddiaeth o fyddardod

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt dros flwyddyn galendr 2023.

*Tabl 10: Atgyfeiriadau*

| | **Nifer a chanran yr atgyfeiriadau** | **Nifer y gwasanaethau**[14] |
|---|---|---|
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod | 41<br>(7%) | 9 |
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a **chyn** iddynt ddechrau addysg statudol | 85<br>(15%) | 12 |
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac **ar ôl** iddynt ddechrau addysg statudol | 438<br>(78%) | 14 |
| Cyfanswm y ffigyrau a roddwyd | 564[15]<br>(100%) | |

Yn nhermau newidiadau yn atgyfeiriadau a dderbyniwyd rhwng y blynyddoedd calendr 2022 a 2023, mae cyfrannau'r atgyfeiriadau:

- drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod wedi gostwng o 8% i 7%
- y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a chyn iddynt ddechrau addysg statudol wedi gostwng o 24% i 15%
- y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl iddynt ddechrau addysg statudol wedi cynyddu o 68% i 78%
- cyfanswm yr atgyfeiriadau dros y flwyddyn galendr wedi cynyddu o 449 i 564.

Wedyn gofynnwyd am ba mor gyflym oedd teuluoedd yn derbyn cysylltiad ac ymweliad yn dilyn yr atgyfeiriad cyntaf. Drafftiwyd y cwestiynau hyn gan gyfeirio at NatSIP Quality Standards for Sensory Support Services in England (2016) – yn enwedig, safonau A1ii a A1iii.

Cydnabyddwn efallai fod ystod o resymau pam nad yw'n bosib i'r ymweliad cyntaf ddigwydd o fewn amserlenni a amlinellir gan y safonau ansawdd (e.e. nid yw'n bosib i'r teulu i gwrdd). Dylid nodi hefyd nad oedd rhai gwasanaethau yn gallu darparu'r data am y cwestiynau ar amserlenni ar gyfer cysylltu â theuluoedd a chynnig ymweliadau i deuluoedd.[16] Felly ni ddylid tybio bod y canrannau ar gyfer amserlenni cyswllt ac ymweliadau yn berthnasol i bob gwasanaeth. Dylid nodi hefyd bod maint y bylchau mewn data wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac ar draws pedair cenedl y DU. Am y rhesymau hyn nid yw'n bosibl cymharu'r data hwn yn uniongyrchol â'r llynedd neu rhwng gwledydd y DU. Ond, gobeithiwn fydd y cwestiynau hyn yn helpu adeiladu darlun cenedlaethol o'r ffordd y mae'r safonau hyn yn cael eu cwrdd.

Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, cawsom fod:

[14] Dyma nifer y gwasanaethu a ddarparodd ffigur dros 0.
[15] 564 oedd swm y ffigurau a roddwyd. Swm y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 563.
[16] Nid oedd y gwasanaethau canlynol yn darparu data llawn, neu roeddent yn darparu sylwadau a oedd yn arwyddo bod eu data ddim yn ymwneud â'r cwestiynau yn uniongyrchol: Caerdydd, Gwynedd ac Ynys Môn, a De Ddwyrain Cymru.

- o’r atgyfeiriadau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod drwy’r rhaglen sgrinio clyw babanod, cysylltwyd â 21 o’r teuluoedd[17] gan AYB o fewn dau ddiwrnod gwaith. Mae hyn yn 51% o’r 41 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy’r llwybr hon. Y ffigur cyfatebol yn 2023 oedd 85%
- o’r atgyfeiriadau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i’r rhaglen sgrinio clyw babanod a chyn iddynt ddechrau addysg statudol, cysylltwyd â 47 o’r teuluoedd gan AYB o fewn pum niwrnod gwaith. Mae hyn yn 55% o’r 85 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy’r llwybr hon. Y ffigur cyfatebol yn 2023 oedd 62%[18]
- o’r atgyfeiriadau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i’r rhaglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl iddynt ddechrau addysg statudol, cysylltwyd â 183 o’r teuluoedd gan AYB o fewn pum niwrnod gwaith. Mae hyn yn 42% o’r 438 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy’r llwybr hon[19]. Y ffigur cyfatebol yn 2023 oedd 41%
- cynigwyd ymweliad i 203 o deuluoedd (naill ai wyneb yn wyneb neu’n rhithiol) gan AYB o fewn deng niwrnod o unrhyw atgyfeiriad. Mae hyn yn 36% o’r 564 o blant a gafodd eu hatgyfeirio naill ai drwy neu’r tu allan i raglen sgrinio clyw babanod. Y ffigur cyfatebol yn 2023 oedd 32%.

Roedd sylwadau gan wasanaethau ar hyn yn cynnwys:

- roedd rhai teuluoedd yn methu cael ymweliadau o fewn yr amserlen benodol oherwydd amgylchiadau teulu (e.e. gwyliau, salwch, marwolaeth yn y teulu, ayb) neu ddymuniadau rhieni
- roedd ‘wyneb yn wyneb’ yn cynnwys mynediad at AYB mewn grŵp chwarae synhwyraidd, ymweliadau i’r cartref, ac ymweliadau i leoliadau addysgol
- os ydynt mewn addysg, fel arfer mae plant yn cael ymweliadau yn yr ysgol
- technegydd awdiolegol yn ymweld â theuluoedd cyn AYB cymwysedig
- clyw plant yn cael lefelau normal pan aethant yn ôl i awdioleg i osod chwyddiad
- plant yn cael gosod gromedau yn fuan ar ôl i’r galwad ffôn gyntaf gael ei gwneud
- gallai fod oedi mewn atgyfeiriadau yn cyrraedd y gwasanaeth o ysbytai y tu allan i’r sir
- oherwydd pwysau llwyth achosion a chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau, gwasanaeth yn blaenoriaethu ymweliadau yn ôl yr angen.

[17] Ar gyfer y cwestiynau hyn am gysylltiad, golygwn gysylltiad go iawn neu ymgais i gysylltu.
[18] Ni chofnodwyd data gan un gwasanaeth i’r cwestiwn am nifer y teuluoedd a gafodd eu cysylltu o fewn dau ddiwrnod, gan eu bod wedi adrodd bod mwy o deuluoedd wedi’u cysylltu o fewn dau ddiwrnod na nifer y plant a gafodd eu hatgyfeirio i’r gwasanaeth drwy’r llwybr hon.
[19] Ni atebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn.

## RHAN 5: Cwestiynau thematig: Adnabyddiaeth gynnar a llwybrau ymyrraeth gynnar

Roedd arolwg CRIDE eleni yn cynnwys rhai cwestiynau thematig am atgyfeiriadau i mewn i, ac wedi'u derbyn gan wasanaethau addysg. Gofynnwyd y cwestiynau hyn gan ein bod yn gwybod, ledled y DU, nad yw pob plentyn byddar yn cael eu hatgyfeirio i mewn i wasanaethau addysg. Roeddem yn awyddus i ddeall yn well a yw hyn oherwydd nid yw'r atgyfeiriadau yn cael eu gwneud gan wasanaethau awdioleg neu oherwydd nid ydynt yn cael eu derbyn gan addysg (oherwydd unrhyw feini prawf cymhwysedd neu bolisi sydd ar waith).

Pan ofynnwyd a oedd unrhyw grwpiau o blant byddar nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio yn fel mater o drefn gan wasanaethau awdioleg (megis plant â byddardod unochrol, mân, cymedrol neu dros dro, a phlant heb gymorth clyw):

- adroddodd 11 gwasanaeth (79%) fod pob plentyn a oedd wedi cael adnabyddiaeth o fyddardod yn cael eu hatgyfeirio
- lle adroddodd gwasanaethau fod grwpiau eraill o blant ddim yn cael eu hatgyfeirio fel mater o drefn, roedd sylwadau yn cynnwys:
    - bydd awdioleg yn atgyfeirio plant heb gymhorthion clyw os ydynt yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol gan y gwasanaeth
    - nid yw plant heb gymorth clyw a heb bryderon/anawsterau wrth gael mynediad at iaith yn cael eu hatgyfeirio fel mater o drefn.
- nododd un gwasanaeth na allent ateb y cwestiwn hwn gan nad oes ganddynt fynediad at ddata awdioleg am blant a phobl ifanc nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth.

Pan ofynnwyd a oedd unrhyw grwpiau o blant byddar, pe bai atgyfeiriad i'r gwasanaeth yn cael ei wneud, ni fyddent yn cael eu derbyn fel mater o drefn, adroddodd pob un o'r 14 gwasanaeth (100%) fod pob atgyfeiriad am blant a oedd wedi cael adnabyddiaeth o fyddardod yn cael eu derbyn.

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd rhaglen sgrinio clyw i blant yn yr ysgol ar waith yn yr ardal lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu:

- adroddodd wyth gwasanaeth (57%) fod rhaglen, ar draws yr ardal gyfan lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu
- adroddodd un gwasanaeth (7%) fod rhaglen, ond nid ar draws yr ardal gyfan lle mae ei wasanaeth yn gweithredu
- adroddodd tri gwasanaeth (21%) fod dim rhaglen o'r fath
- adroddodd dau wasanaeth (14%) eu bod nhw ddim yn gwybod.

Rhoddwyd i wasanaethau cyfle i rannu unrhyw fewnwelediad neu farnau anecdotaidd ar sawl bwnc.

Ar ba mor dda, neu beidio, oedd llwybrau atgyfeirio yn gweithio yn eu hardal:

- adroddodd rhai gwasanaethau fod ganddynt ddim pryderon
- lle nododd gwasanaethau sylwadau ar yr hyn a oedd yn gweithio'n dda:
    - adroddodd rhai gwasanaethau gysylltiad/cyfathrebu a chyswllt da â gwasanaethau awdioleg a bod yr wybodaeth a dderbyniwyd gan awdioleg yn llawn, perthnasol a chlir

  - derbyn atgyfeiriadau yn ganolog yn uniongyrchol gan yr adran iechyd
  - pan fydd awdioleg yn cydsynio i rannu, a bod Cynllun Rheoli Unigol y plentyn neu berson ifanc yn cael eu derbyn gyda'i gilydd
  - bod gan ysgolion sydd â phryderon am glyw plentyn neu berson ifanc yr wybodaeth am sut i'w hatgyferio i'r meddyg teulu ar gyfer asesiad clyw
  - cyfarfodydd llwyth achosion bob tymor gydag awdioleg a therapi lleferydd ac iaith
  - hyd yn oed pan na fydd plant efallai yn derbyn mewnbwn parhaus gan wasanaeth, gallant gael eu hatgyferio am gyngor neu gymorth tymor byr i deuluoedd/ysgolion.
- lle adroddodd gwasanaethau fod pethau ddim yn gweithio mor dda:
  - rhai plant a phobl ifanc yn cyrraedd yr ysgol gyda chymorth/chymhorthion clyw ond heb eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth gan awdioleg, yn enwedig gyda gwasanaethau trawsffiniol.

Ar a oedd unrhyw wahaniaeth wedi bod yn nifer neu fathau'r atgyfeiriadau sydd wedi'u gwneud i mewn i wasanaethau ers 2020, nododd gwasanaethau sylwadau ar:

- cynnydd cyffredinol yn nifer yr atgyfeiriadau
- cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer clust ludiog, ac yn fwy penodol cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau o blant gyda byddardod dargludol gyda chymhorthion clyw dros dro neu gymorth dargludiad esgyrn wrth iddynt aros am ymyrraeth gan ENT
- cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau cyn-ysgol
- atgyfeiriadau lle mae ysgolion wedi bod yn pryderu am leferydd plant i weld a yw'n gysylltiedig a gall ysgolion ddefnyddio'r gwasanaeth fel ffordd i mewn i'r llwybr lleferydd ac iaith yn uniongyrchol.

Ar unrhyw ymarfer dda neu obeithiol yn nhermau adnabyddiaeth gynnar a llwybrau ymyrraeth gynnar, nododd gwasanaethau sylwadau ar:

- cysylltiadau a chyfathrebu da gydag adrannau awdioleg yn benodol, a hefyd pediatreg
- gwybodaeth yn cael ei rhannu yn syth rhwng awdioleg yn dilyn atgyfeiriadau/asesiadau clyw
- mynychu sesiynau rheolaidd, a mynychu gosodiad cyntaf cymhorthion clyw
- plant cyfnod sylfaen gyda cholled clyw yn cael eu hychwanegu at lwyth achosion dysgu fel y gellir ymdrin ag unrhyw fylchau yn eu geirfa
- ymyrraeth gynnar gyda'r tîm blynyddoedd cynnar lle mae arweinydd y tîm yn mynychu pob panel blynyddoedd cynnar gydag iechyd a lleoliad yn rhannu gwybodaeth ac yn cytuno i weithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer pontio i leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion
- plant sy'n cael adnabyddiaeth o fyddardod drwy raglen sgrinio clyw babanod neu blant sy'n cael adnabyddiaeth o fyddardod sylweddol yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol o awdioleg cyn gynted ag y mae'r teulu yn gadael yr apwyntiad, fel arfer yn galluogi cyswllt ar yr un dydd
- awdioleg yn cefnogi plant sydd newydd gael adnabyddiaeth o fyddardod i ddysgu BSL.

Ar broblemau neu heriau eraill sydd wedi cael effaith sylweddol ar y gefnogaeth y gall gwasanaethau ei rhoi, nododd gwasanaethau sylwadau ar:

- cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n symud i mewn i'r wlad heb ddiagnosis a heb fynediad at dechnoleg clyw neu gyfathrebu wedi'i arwyddo
- rhestrau aros awdioleg hir yn golygu oedi mewn cynnig darpariaeth
- amseroedd aros GIG ar gyfer ENT

- cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ers 2020, gyda nifer ohonynt wedi canfod eu bod yn fyddar yn hwyrach na chyn y pandemig oherwydd nid yw plant yn cael diagnosis cyn iddynt fynd i'r ysgol a phlant ddim yn mynychu lleoliadau cyn-ysgol
- oedi wrth gysylltu â theuluoedd lle mae Saesneg yn ail iaith oherwydd faint o amser y gall ei gymryd i drefnu dehonglydd am ymweliad i'r cartref
- anawsterau wrth recriwtio AYB cymwysedig.

## RHAN 6: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar, Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar Cymru, *Frank Barnes School for Deaf Children*, *Longwill School for the Deaf*, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, *Royal School for the Deaf Derby,* Coleg Prifysgol Llundain, Prifysgol Caeredin, cyn-benaethiaid gwasanaethau neu ymgynghorwyr sy’n arbenigo mewn byddardod, a gwasanaethau addysg arbenigol i blant byddar yn Swydd Caergrawnt, Camden, Caint a Leeds.

Mae’r arolwg yn newid o flwyddyn i flwyddyn rhwng arolwg safonol ac arolwg gyda chymysgedd o gwestiynau craidd a thematig. Roedd arolwg 2024 yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau craidd a thematig.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2024 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE. Lle na fu ymateb erbyn 15 Mawrth, cysylltwyd â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn gan aelodau CRIDE. Fel arfer lle nad oes ymateb gan wasanaethau ar ôl y dyddiad hwn, anfonir ceisiadau rhyddid gwybodaeth, ond roedd pob un o’r 14 gwasanaeth wedi cyflwyno eu hymatebion. Mae’r tabl isod yn amlinellu’r gyfradd ymateb yn ôl pob cyfnod.

*Tabl 11: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaethau*

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf – 15 Mawrth 2024 | 12 | 12 |
| Yr ail ddyddiad cau yn dilyn cyswllt gan grŵp llywio CRIDE | 2 | 14 |

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy gwblhau arolwg ar-lein. Pe na baent yn gallu gwneud hyn, roedd yn bosib iddynt ddefnyddio dogfen Word o'r arolwg. Ymgymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffai CRIDE ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisïau’r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â cride@ndcs.org.uk.

## Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl sy’n dilyn rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol i ddarparu'r ffigurau o 31 Ionawr 2024.

Mae ffigurau am AYB yn cynnwys AYB sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol (CG) ac AYB sydd o dan hyfforddiant am y CG neu sydd yn bwriadu hyfforddi o fewn tair blynedd.

Bwriad ffigurau ar gyfer poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau yw dangos lledaeniad darpariaethau adnoddau ar draws pob ardal. Cyfrifir trwy rannu nifer y plant byddar sy’n byw mewn ardal lle mae gwasanaeth yn gweithredu a nifer y darpariaethau adnoddau yn ardal gwasanaeth. Lle nad oes darpariaeth adnoddau yn yr ardal, arwyddir hyn gan gymhareb o’r boblogaeth yn yr ardal o 0. Dylid defnyddio gofal wrth ddehongli’r ffigurau hyn. Mewn rhai achosion, efallai gall y gymhareb gael ei dylanwadu gan bresenoldeb ysgolion arbennig yn yr ardal neu ddarpariaeth adnoddau eraill mewn ardaloedd cyfagos. Dylid nodi **nid** yw hyn yn fesur o’r nifer o’r lleoedd sydd ar gael yn, neu’r plant byddar unigol sydd wedi’u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi’u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

Mewn rhai achosion, mae nifer y plant ar y llwyth achosion gyda cholled clyw dros dro yn llai na phump. Pan fydd hyn yn digwydd, rydym wedi defnyddio ‘<5’ yn lle’r ffigur ac wedi defnyddio sero mewn unrhyw gyfrifiadau ar ffigur cyfanswm y llwyth achosion. Dangosir hyn gan serennig yn erbyn ffigur y llwyth achosion.

*Tabl 12: Data yn ôl awdurdod lleol*

| | **Nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu** | **Nifer y plant sydd â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achosion eich gwasanaeth** | **Nifer y plant sydd â byddardod dros dro sydd ar lwyth achosion eich gwasanaeth** | **AYB sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol** | **AYB mewn darpariaeth adnoddau** | **AYB yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol** | **AYB yn gweithio’n hyblyg** | **Poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont | 160 | 206 | 46 | 1 | 1 | 0 | 1 | 80:1 |
| Caerdydd | 307 | Dim data | 49 | 4.8 | 5 | 0 | 0 | 154:1 |
| Sir Gaerfyrddin | 156 | 225 | 69 | 2.2 | 3 | 0 | 0 | 78:1 |

| | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achosion eich gwasanaeth | Nifer y plant sydd â byddardod dros dro sydd ar lwyth achosion eich gwasanaeth | AYB sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol | AYB mewn darpariaeth adnoddau | AYB yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol | AYB yn gweithio'n hyblyg | Poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 50 | 71 | 21 | 0.8 | 1 | 0 | 0 | 50:1 |
| Gwynedd ac Ynys Môn | 125 | 166 | 41 | 2.6 | Dim darpariaeth adnoddau | 0 | 0 | 125:0 |
| Merthyr Tudful | 34 | Dim data | <5 | 0.8 | Dim darpariaeth adnoddau | Dim wedi'i gofnodi | Dim wedi'i gofnodi | 34:0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 104 | 222 | 118 | 2 | 3 | 0 | 0 | 52:1 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir y Fflint, Sir Dinbych, Wrecsam, Conwy) | 314 | 344 | 50 | 4.8 | 2 | 0 | 0.4 | 105:1 |
| Sir Benfro | 70 | 113 | 42 | 1 | Dim darpariaeth adnoddau | 0 | 0 | 70:0 |
| Powys | 97 | 122 | 28 | 2.6 | Dim darpariaeth adnoddau | Dim wedi'i gofnodi | Dim wedi'i gofnodi | 97:0 |
| Rhondda Cynon Taf | 125 | 125 | Dim data | 3.2 | 1 | 2 | Dim wedi'i gofnodi | 125:1 |
| De Ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd) | 476 | 1,096 | 615 | 5.9 | 4.2 | 0 | 0 | 238:1 |
| Dinas Abertawe | 129 | 236 | 107 | 2 | 1.5 | 0 | 0 | 65:1 |
| Bro Morgannwg | 80 | 112 | 32 | 1 | 2 | 0 | 0 | 40:1 |